

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio  
Cymunedau

Dyddiad: 31 Awst 2017

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 7 MEDI 2017 am 10.00 am yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER HOLL AELODAU'R PWYLLGOR AM 9.30 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION (Tudalennau 3 - 12)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017 (copi ynghlwm).

## **5 SIR DDINBYCH FEL LLEOLIAD TWRISTIAETH A DIGWYDDIADAU**

(Tudalennau 13 - 38)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) ar waith y Tîm Twristiaeth i hyrwyddo Sir Ddinbych fel lleoliad twristiaeth a digwyddiadau a gwneud argymhellion ar sut y dylid datblygu twristiaeth yn y sir ymhellach.

## **6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL ARCHWILIO** (Tudalennau 39 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

## **7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn diweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

### **AELODAETH**

#### **Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Williams  
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-  
Gadeirydd)

Brian Blakeley  
Rachel Flynn  
Tina Jones  
Merfyn Parry  
Arwel Roberts

Anton Sampson  
Glenn Swingler  
Andrew Thomas  
Cheryl Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

## PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2017 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngwr. Brian Blakeley, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd y Cyngwr. Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy, yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

**Arsylwyr:** Y Cyngwr. Martyn Holland, Brian Jones, Huw Jones, Rhys Thomas, Tony Thomas, Emrys Wynne a Mark Young.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ), Rheolwr Datblygu (PM), Cydlynnydd Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol (DM), Swyddog System Gwybodaeth Ddaearyddol (TW), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngwrwr(wyr) Rachel Flynn a/ac Arwel Roberts

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad.

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

#### 4 PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebwyd ac eiliwyd Cyngwrorydd Graham Timms ar gyfer rôl Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill ac felly:

**PENDERFYNWYD** y dylid penodi'r Cyngwrorydd Graham Timms yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2017/2018.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2017

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2017 fel cofnod cywir.

## 6 DIWEDDARIAD AM REOLI MEYSYDD PARCIO

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy'r adroddiad (a ddsbarthwyd eisoes) yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r argymhellion eraill a nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau fis Hydref 2016 ar feysydd parcio.

Roedd argymhellion yn ymwneud â datblygiad cynllun rheoli asedau meysydd parcio a mentrau cynhyrchu incwm gyda'r bwriad o gynyddu adnoddau i fuddsoddi ym meysydd parcio'r sir. Dywedwyd wrth aelodau fod y cynigion a gyflwynwyd iddynt yn y cyfarfod hefyd wedi'u cyflwyno i rhan fwyaf o Grwpiau Ardal yr Aelodau, ac eithrio grŵp Ardal Aelodau Elwy. Roedd Swyddogion am ei gyflwyno i Grŵp Elwy cyn diwedd mis Gorffennaf. Roedd pob un o'r pum grŵp yr ymwelwyd â hwy hyd yma wedi bod yn barod i dderbyn a chefnogi'r cynigion.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- byddai'r cynllun buddsoddi arfaethedig, pe bai'n cael ei gyflwyno gan y Grŵp Buddsoddi Strategol, yn cael ei gyllido o'r gyllideb Gwasanaethau Parcio Ceir ynghyd ag elfen o Benthycia Darbodus, a fyddai'n angenrheidiol oherwydd graddfa'r buddsoddiad gofynnol i gyflawni uchelgais y Gwasanaeth ar gyfer ei gyfleusterau;
- roedd yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2016 wedi cynnwys dadansoddiad manwl o effaith y cynnydd mewn prisiau parcio ceir ar eu defnydd;
- roedd angen y cynnydd mewn taliadau parcio ceir yn 2016, y cynnydd cyntaf ers 7 mlynedd, er mwyn mynd i'r afael â diffyg yn y gyllideb. Roedd aelodau'r Pwyllgor bryd hynny wedi bod yn glir eu bod yn cefnogi polisi prasio cyson ar draws y sir;
- roedd ystadegau diweddaraf ar ddefnydd meysydd parcio yn y sir yn dangos bod lefelau defnydd presennol yn gyfartal â lefelau defnydd cyn y cynnydd o ran taliadau. Yn gyffredinol, roedd lefelau defnydd wedi aros yn gyson am gyfnod. Yn yr un modd roedd yr incwm a gafwyd o feysydd parcio'r Cyngor wedi cynyddu rhywfaint;
- gallai peiriannau talu ac arddangos a oedd i'w gosod ym meysydd parcio'r Cyngor gael eu hailraglennu'n rhwydd gan staff pe bai angen, h.y. os oedd parcio â chymhorthdal i gael ei ddarparu gan gyngor tref. Byddent hefyd yn derbyn taliadau arian a cherdyn;
- pe bai'r cynllun buddsoddi'n cael cymeradwyaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol, rhagwelwyd y byddai'n cymryd tua phum mlynedd i weithredu'r cynllun rheoli asedau meysydd parcio yn gyfan gwbl;

- byddai'r cynllun yn cynnwys darparu arwyddion gwell a chliriach mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor gyda bwriad o wella profiad defnyddwyr a gwella meysydd parcio i fod yn byrth i Sir Ddinbych i dwristiaid;
- roedd rhai o'r arwyddion a byrddau gwybodaeth presennol ym meysydd parcio'r sir wedi eu hariannu gan wasanaethau neu sefydliadau eraill h.y. gwasanaethau cefn gwlad, cynghorau tref ac ati. Roedd cyllid ar gyfer rhai o'r arwyddion hyn wedi'i ddiogelu drwy ffrydiau ariannu grantiau penodol h.y. Cyllid Ewropeaidd;
- rhagwelwyd y byddai'r opsiwn presennol o dalu am barcio ceir drwy ffôn symudol yn cael ei ddileu yn raddol. Byddai hyn oherwydd cyflwyno peiriannau talu ac arddangos newydd gyda chyfleuster i dderbyn taliadau arian a cherdyn. Byddai'r contract presennol ar gyfer prosesu taliadau ffôn symudol yn dod i ben ymhen dwy flynedd; ac
- roedd Astudiaeth Parcio a Rheoli Traffig Canol Tref Sir Ddinbych wedi archwilio graddau camddefnyddio parcio ar y stryd yng nghanol trefi yn fanwl, a chyfleusterau parcio ceir a'u heffaith ganlyniadol ar fusnesau a phreswylwyr.

Ar ddiwedd y drafodaeth, fe wnaeth y Pwyllgor:

**BENDERFYNU:**

- ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad D) fel rhan o'i ystyriaethau;*
- ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad, a'r atebion a gafwyd i'r cwestiynau a godwyd, cefnogi parhad y gwaith a wneir i ddatblygu Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r mentrau eraill a restrir; a*
- bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2018 i nodi'r cynnydd a wnaed gyda gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio ac i amlinellu canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio ar draws gwasanaethau i archwilio opsiynau posibl i wella profiad ymwelwyr o ran parcio.*

## **7 YSTYRIED PARCIO AM DDIM I DDEILIAID BATHODYN ANABLEDD**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd Cynllunio a Theithio Cynaliadwy yr adroddiad (a ddsbarthwyd eisoes) i ystyried p'un a ddylai deiliaid Bathodynau Parcio Anabledd (Bathodynau Glas) gael parcio am ddim ym meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.

Wrth iddo gyflwyno, dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mai'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, oedd yn gweinyddu a chyhoeddi bathodynau parcio anabledd (bathodynau glas). Dywedodd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i aelodau gan ymateb i rybudd am gais i'r Cyngor Sir ym mis Ionawr 2017 yn ymwneud ag egwyddor codi tâl ar ddeiliaid 'bathodynau glas' am barcio eu cerbydau ym meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- teimlent gan mai Sir Ddinbych oedd yr unig Gyngor yng Ngogledd Cymru i godi tâl ar ddeiliaid 'bathodynau glas' am barcio ym meysydd parcio'r

cyngor, roedd hyn yn arwain at ddryswch, yn enwedig i'r rhai sy'n ymweld â'r ardal;

- byddai pobl ag anabledd angen cyfnod hirach yn gyffredinol i gyflawni'r un gweithgareddau â phobl abl, h.y. siopa, ymweld â'r banc ac ati. Felly byddent angen prynu tocyn parcio drytach i ganiatáu ar gyfer y cyfnod hirach byddent ei angen i gyflawni eu gweithgaredd;
- roedd Sir Ddinbych, o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, fel pe baent yn mabwysiadu dull anhaelionus i ddeiliaid 'bathodynau glas'.
- nid oedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y goblygiadau ariannol i'r Cyngor pe bai'n penderfynu newid ei bolisi i ganiatáu i ddeiliaid bathodynau glas barcio am ddim yn ei feysydd parcio;
- byddai'n ddefnyddiol i bob awdurdod lleol pe bai Llywodraeth Cymru (LIC) yn rhoi cyfarwydddeb glir o ran codi tâl ar ddeiliaid 'bathodynau glas' am barcio ym meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor;
- roedd angen polisi cyson o ran parcio anabl yn ardaloedd trefol a gwledig y sir;
- i osgoi dryswch ac ansicrwydd o ran codi tâl roedd angen arwyddion clir ym mhob maes parcio. Awgrymwyd i hwyluso hyn, dylid cynnal trafodaethau rhwng y Cyngor Sir a chynghorau tref a chymuned;
- wrth dderbyn nad oedd yr angen am 'fathodyn glas' yn seiliedig ar brawf modd roedd pobl ag anabledd yn aml yn talu costau ychwanegol o ran eu hanghenion symudedd, er bod rhai pobl anabl yn cael budd-daliadau i helpu i dalu eu costau symudedd;
- gyda'r newidiadau demograffig presennol yn y sir, mae'n debygol y byddai cynnydd o ran nifer y ceisiadau am drwyddedau parcio i bobl anabl yn y dyfodol agos;

Gan ymateb i'r pwyntiau a'r cwestiynau a godwyd gan aelodau, gwnaeth swyddogion:

- ddweud er mai Sir Ddinbych oedd yr unig awdurdod yng Ngogledd Cymru a oedd yn codi tâl ar ddeiliaid 'bathodynau glas' am barcio yn ei feysydd parcio, nid oedd yn unigryw o ran mabwysiadu'r dull hwn. Roedd nifer o gynghorau eraill yng Nghymru ac ar draws y DU yn mabwysiadu dull tebyg. O'r rhai a oedd yn codi tâl, roedd rhai yn mabwysiadu'r un dull â Sir Ddinbych, roedd eraill yn rhoi amser ychwanegol am yr un tâl, h.y., awr ychwanegol ar ben yr amser a godir;
- pwysleisio nad oedd bod yn 'ddeiliaid bathodyn glas' yn adlewyrchu gallu person i dalu am barcio. Roedd 'bathodynau glas' yn cael eu rhoi i bobl oedd angen cymorth i gael mynediad i wasanaethau neu gyfleusterau oherwydd problemau symudedd nid oherwydd nad oedd ganddynt y modd digonol i dalu. Nid oedd bathodynau parcio anabledd yn seiliedig ar 'brawf modd', roeddent yn cael eu rhoi i bobl oedd yn bodloni asesiad meini prawf symudedd ac roedd y bathodynau yn eiddo i'r person nid i gerbyd penodol. Gallai fod nifer o ddefnyddwyr meysydd parcio eraill a oedd yn fwy tebygol o gael trafferthion ariannol o orfod talu am barcio na deiliaid 'bathodyn gas' h.y., pobl ddi-waith, pensiynwyr neu bobl sy'n derbyn budd-daliadau;
- dweud heb gynnal dadansoddiad manwl o'r effaith bosibl o dynnu taliadau parcio ar gyfer deiliaid 'bathodyn glas' yn ôl, roedd yn anodd rhagweld y goblygiadau ariannol o newid o ran polisi. Fodd bynnag, fel canllaw, roedd swyddogion yn amcangyfrif y byddai'r colli incwm tua £20K i £25K. Yn

ychwanegol at y golled ariannol, gallai fod goblygiadau canlyniadol cysylltiedig os byddai'r polisi presennol yn cael ei newid fel deiliaid 'bathodyn glas' yn defnyddio manau parcio dynodedig am gyfnod hirach, h.y. trwy'r dydd os ydynt yn gweithio gerllaw gan leihau nifer y manau parcio dynodedig sydd ar gael i bobl anabl sydd am ddefnyddio siopau neu wasanaethau eraill, cynnydd yn nifer y ceisiadau am 'fathodynau glas' a fyddai'n rhoi pwysau ychwanegol ar staff gweinyddol yn yr adran Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Yn ychwanegol, byddai deiliaid 'bathodynau glas' yn parhau i ddefnyddio eu hawliau i barcio ar y stryd os oedd yn fwy cyfleus i'r lle roeddent am ymweld ag ef;

- cadarnhau fod canllawiau LIC yn nodi'n glir fod y penderfyniad ar p'un a ddylid codi tâl ar ddeiliaid bathodynau glas am barcio ym meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor yn benderfyniad i bob awdurdod lleol unigol, nid oedd yn benderfyniad i'r llywodraeth ganolog;
- roedd consesiynau a roddir i ddeiliaid bathodynau glas ar sail y DU gyfan o ran lleoliadau parcio a chyfyngiadau amser, fel a restrir ym mharagraff 4.10 yr adroddiad, yn eithaf eang ac wedi'u hanelu at wella hygyrchedd a'u hansawdd bywyd;
- cadarnhau bod y gyfraith yn nodi bod angen i 6% o nifer y manau parcio ceir mewn unrhyw faes parcio gael eu cadw i bobl anabl;
- dweud eu bod yn hyderus y gallai'r Cyngor gyfiawnhau fod ganddo'r nifer ofynnol o faeau parcio dynodedig i bobl anabl ar draws ei feysydd parcio pe bai'n cael ei herio i wneud hynny;
- cadarnhau bod deiliaid 'bathodynau glas' a oedd yn arddangos eu bathodynau mewn cerbydau sydd wedi parcio mewn baeau parcio nad oeddent wedi'u dynodi ar gyfer pobl anabl yn cael yr un hawliau â'r rhai a oedd wedi parcio mewn baeau parcio dynodedig i bobl anabl;
- cadarnhau bod ychydig yn llai na 7,000 o ddeiliaid 'bathodynau glas' yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, ac roedd bron 2,500 wedi'u rhoi yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob trwydded yn cael ei rhoi am gyfnod o dair blynedd;
- dweud nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddefnyddio helaeth o'r cynllun 'bathodyn glas'. Staff o'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn cael y gwaith o wirio ceisiadau am fathodynau, a swyddogion gorfodi sifil oedd yn patrolio meysydd parcio'r Cyngor oedd yn cael y gwaith o herio unrhyw achos o gamddefnyddio a amheuir; a
- chadarnhau bod y pŵer i wneud y penderfyniad o ran tariffau meysydd parcio wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth, yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar ôl gwrandao ar y drafodaeth nad oedd y trefniadau presennol yn ddymunol i aelodau a chynigiodd wneud gwaith pellach ar oblygiadau amrywiaeth o opsiynau o ran tariffau parcio ceir mewn baeau dynodedig i bobl anabl a'r potensial o ganiatáu i bob deiliad 'bathodyn glas' gael cyfnod penodol ychwanegol o amser am yr un tariff â defnyddwyr eraill pan fyddant yn parcio mewn unrhyw faes parcio sy'n eiddo i'r cyngor h.y. 1 awr ychwanegol, cyn cyhoeddi ei 'Benderfyniad Dirprwyedig'. Os oedd gan yr aelodau bryderon o hyd ar y cam hwnnw am y mater gallent alw'r penderfyniad i mewn am archwilio pellach o fewn y rheolau a nodir yng Ngweithdrefnau Galw i Mewn y Cyngor.

Ar ddiwedd y drafodaeth gynhwysfawr, gwnaeth y Pwyllgor:

**BENDERFYNU:**

- (i) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad B) fel rhan o'i ystyriaethau; a*
- (ii) *bod y Pennaeth Gwasanaeth, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy, ar ôl ystyried yr arsylwadau uchod, yn gwneud penderfyniad dirprwyedig o ran tariffau meysydd parcio ar gyfer deiliaid 'Bathodynau Glas'.*

**Ar y pwynt hwn (11.00 am) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.15am.**

## **8 ADOLYGU A DIWEDDARU PROSIECT RHEOLEIDDIO PARCIAU CARAFANAU GWYLIU**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am reoleiddio parhaus parciau carafanau gwyliau yn y sir a sut roedd y Cyngor yn monitro a gorfodi achosion posibl o dorri rheolau.

Dywedodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) wrth aelodau fod y gwaith cychwynnol sy'n ymwneud â'r Prosiect wedi dechrau tua phedair i bum mlynedd yn ôl a'i fod wedi bod yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd sy'n ymwneud ag achosion honedig o dorri amodau cynllunio a thrwyddedu ar rai o barciau gwyliau'r sir. Ar y pryd, roedd gan aelodau a swyddogion bryderon o ran y canfyddiad bod rhai unigolion yn byw fel preswylwyr parhaol mewn carafanau gwyliau, a thra nad oeddent yn talu Treth y Cyngor, roeddent yn defnyddio Gwasanaethau'r Cyngor, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus eraill h.y. gwasanaethau iechyd yn y sir.

Gyda'r bwriad o gadarnhau'r dystiolaeth anecdotaidd, dechreuwyd ymholiadau gyda nifer o wasanaethau'r Cyngor i bennu a oedd meddianwyr carafanau yn defnyddio gwasanaethau a gaiff eu rhedeg gan y Cyngor fel yr amheuwyd. Gwnaeth yr ymholiadau gadarnhau bod rhai meddianwyr carafanau 'gwyliau' yn defnyddio amrywiaeth o wasanaethau. Yn dilyn y darn cychwynnol hwn o waith, gofynnwyd i Wasanaeth Busnes, Gwelliant a Moderneiddio'r Cyngor wneud rhagor o waith i helpu i gydlynu cronfeydd data'r Cyngor er mwyn ei gwneud yn haws i Swyddogion Gorfodi gasglu dystiolaeth o bobl sy'n preswyllo mewn carafanau yn defnyddio gwasanaethau yn ddiweddar. Gwnaeth y Gwasanaeth Busnes, Gwelliant a Moderneiddio ddatblygu adnodd monitro yn benodol at y diben hwn - rhoddwyd arddangosiad o sylfaen dystiolaeth yr adnodd a'i allu i aelodau yn y cyfarfod. Roedd gan yr adnodd monitro hwn y gallu i gyrraedd Grŵp Ardal yr Aelodau, wardiau'r Cyngor a manylion carafanau unigol, a oedd yn hynod o ddefnyddiol i Swyddogion Gorfodi wrth wneud eu gwaith. Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi yn yr adnodd yn cael ei diweddarau bob mis. Roedd y ddogfen gyfrinachol yn Atodiad 1 yr adroddiad yn dangos effeithiolrwydd yr adnodd i leihau nifer y gwasanaethau a ddarperir i bobl sy'n preswyllo mewn carafanau

gwyliau ers 2015. Roedd y lleihad hwn wedi'i sicrhau drwy waith partneriaeth effeithiol gyda'r Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (BHHPA) a phartneriaid eraill. Gyda'i adnoddau cyfyngedig o 1 Swyddog Cydymffurfiaeth Cynllunio a 0.5 Swyddog Trwyddedu, byddai'r Cyngor wedi cael anawsterau wrth wneud gwaith cydymffurfio a gorfodi o ran y 6,000 llain carafanau sefydlog a 400 llain carafanau teithiol yn y sir. Felly roedd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol os oedd gwaith cydymffurfio i lwyddo. Drwy weithio gyda'r BHHPA daeth yn amlwg mai achos gwreiddiol pobl sy'n preswyllo mewn carafanau yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor o 'garafanau gwyliau' oedd bod llond llaw o safleoedd carafanau mawr naill ai heb allu rheoli cofnodion safle yn effeithiol neu wedi diystyru'r amodau cynllunio a thrwyddedu a roddwyd ar gyfer eu safleoedd. Roedd cymorth y BHHPA wedi bod yn hanfodol wrth gynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd y safle roedd ynddo ar hyn o bryd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, roedd nifer y bobl sy'n preswyllo mewn carafanau gwyliau ac sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor wedi lleihau, roedd perchnogion safleoedd carafanau nawr yn fwy parod i gydweithio gyda'r Cyngor a chymryd cyfrifoldeb dros reoli eu safleoedd y unol â'r amodau a roddwyd. Roedd un erlyniad oedd yn cael ei aros am dorri amodau cynllunio hefyd wedi digwydd o ganlyniad i'r gwaith sy'n ymwneud â'r Prosiect.

Roedd Swyddogion yn hyderus nawr, ar sail y gwaith a wnaed hyd yma a'r berthynas waith gryf oedd yn bodoli rhwng swyddogion a swyddogion BHHPA, y byddai gwaith cydymffurfio yn gallu cael ei wneud ar 'sail busnes fel arfer' o hyn ymlaen.

Wrth ymateb i gwestiynau'r swyddogion, gwnaeth Aelodau:

- amlinellu sut, yn eu barn hwy, roedd sefyllfa wedi datblygu dros gyfnod estynedig a oedd wedi arwain at 'bobl ar wyliau' yn ddistaw bach yn dod yn 'breswylwyr'. Dylai'r berthynas weithio agosach a luniwyd rhwng adrannau'r Cyngor fel rhan o'r prosiect hwn, yn ogystal â'r cysylltiadau a sefydlwyd gyda phartneriaid allanol, ddiogelu yn erbyn sefyllfa debyg rhag datblygu yn y dyfodol;
- cadarnhau nad oedd carafanau gwyliau yn destun Treth y Cyngor, o ganlyniad nid oedd pobl sy'n 'preswyllo' ynddynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad poblogaeth a oedd yn sail i setliad Grant Cynnal Refeniw blynyddol y Cyngor;
- cadarnhau bod y Cyngor wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi tocynnau bws i unigolion oedd yn byw mewn safleoedd carafanau gwyliau ers 2015;
- dweud y dylai meddiannu carafanau hirdymor, ar safle mawr neu ar lain unigol, gael ei ganfod yn rhwydd yn y dyfodol drwy ddefnyddio'r adnodd monitro. Pe bai preswylwyr carafán yn ceisio defnyddio gwasanaeth ar unrhyw adeg, neu gofrestru carafán gwyliau fel cyfeiriad post byddai'n dechrau ymholiad cydymffurfio. Byddai unrhyw ymgais i gofrestru carafán at ddiben derbyn post yn cynhyrchu cofnod yn y mynegai tir ac eiddo. Roedd gwybodaeth a gedwir ar y mynegai tir ac eiddo ar gael i nifer o wasanaethau, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd;
- dweud y dylai preswylwyr carafanau gwyliau a oedd yn cael mynediad i'w carafán am gyfnodau penodol o'r flwyddyn, h.y. 10 mis, gael 'prif' gyfeiriad preswyllo bob amser – cyfeiriad lle roeddent wedi'u cofrestru ar gyfer dibenion Treth y Cyngor, y Gofrestr Etholiadol ac ati:

- cadarnhau bod Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn defnyddio carafanau gwyliau o bryd i'w gilydd at ddiben cartrefu pobl ddiamddiffyn ar sail tymor byr iawn, fel arfer mewn sefyllfaoedd brys. Roedd y niferoedd yn isel iawn, fel arfer dim mwy na tua chwe unigolyn. Roedd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa'n agos i sicrhau bod yr unigolion dan sylw yn cael eu symud i lety mwy addas, a oedd yn diwallu eu hanghenion yn well, mor gyflym ag sy'n bosibl;
- amlinellu hawliau Swyddogion Cynllunio a Thrwyddedu i gael mynediad i safleoedd carafanau, gan bwysleisio os byddai'r gweithredwr/rheolwr trwyddedig yn gwrthod mynediad i swyddogion rheoleiddio, gallai'r Cyngor, o fewn 24 awr, gael mynediad i'r safle gyda'r Heddlu;
- cadarnhau mai gweithredwr neu reolwr y safle, y trwyddedai a enwir, oedd yn atebol ar y cyfan am sicrhau bod y safle a'i ddefnyddwyr yn cydymffurfio gydag unrhyw amodau cynllunio a thrwyddedu a roddwyd. Roedd yn hynod o brin i weld achos lle mai perchennog carafán unigol oedd yn atebol;
- dweud yn y dyfodol, byddai'r Cyngor yn ystyried atodi cymalau mwy llym wrth roi caniatâd cynllunio a rhoi trwyddedau ar gyfer safleoedd carafanau, e.e. cynnwys gofyniad i ddeiliad y drwydded ddarparu manylion cofrestru Treth y Cyngor i bob perchennog carafán ar sail flynyddol;
- dweud os oedd y Cyngor yn amau bod pobl yn defnyddio carafán fel preswylfa parhaol, byddai swyddogion yn mynd at ddeiliad trwydded y safle a fyddai'n gyfrifol am fynd at breswylwr y garafán i ofyn am dystiolaeth nad hwn oedd eu cartref parhaol. Os na ddarparwyd tystiolaeth, roedd y cyfrifoldeb ar ddeiliad y drwydded i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio gyda phob amod cynllunio a thrwyddedu er mwyn osgoi camau gorfodi gan y Cyngor. Gallai hyn arwain at unigolion neu deuluoedd yn cyflwyno eu hunain i'r Cyngor fel digartref, a allai yn ei dro, roi pwysau ar yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol o bosibl;
- cadarnhau ei bod yn hanfodol i berchnogion/gweithredwyr parciau i reoli eu safleoedd yn llym i sicrhau bod carafanau yn cael eu defnyddio at ddibenion gwyliau yn unig ac nad oeddent yn cael eu camddefnyddio h.y. perchnogion yn is-osod carafanau i unigolion diamddiffyn, oherwydd fel deiliaid trwydded, roeddent yn atebol am unrhyw achos o dorri amodau a chosbau canlyniadol; a
- dweud, os oedd unigolyn yn cyflwyno ei hun fel 'digartref' o ganlyniad i gael ei droi allan o garafán 'gwyliau', byddai angen iddo fodloni'r 'prawf cysylltiadau lleol' cyn i'r Cyngor fod yn atebol am ddarparu tai iddynt. Byddai'r cyfrifoldeb am ddarparu tai gyda'r awdurdod lleol lle roedd eu cyfeiriad parhaol cofrestredig diwethaf.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben, nododd aelodau bryderon o ran a oedd unrhyw bobl ddiamddiffyn yn preswyllo ar safleoedd carafanau yn y sir nad oedd y Cyngor yn ymwybodol ohonynt oherwydd nad oeddent wedi ceisio gwneud cais am wasanaeth. Mynegwyd pryderon hefyd o ran a oedd carafanau neu siediau unigol yn ardaloedd gwledig y sir yn cael eu defnyddio at ddibenion preswyl. Gan ymateb i'r pryderon hyn, gofynnodd swyddogion i aelodau adrodd am unrhyw bryderon neu amheuon a ddaeth i'w sylw i swyddogion cyn gynted ag sy'n gyfleus i'w galluogi i gael eu hymchwilio.

Rhoddodd y Pwyllgor longyfarchiadau i swyddogion am y gwaith helaeth a wnaed o ran y Prosiect hwn dros gyfnod estynedig. Roedd o'r farn ei fod yn ddarn o waith archwilio gwerth chweil ac yn enghraifft wych o weithio ar draws gwasanaethau a gwaith partneriaeth effeithiol a oedd o fudd i'r Cyngor, yn amddiffyn pobl ddiamddiffyn a chefnogi datblygiad economaidd drwy sicrhau bod safleoedd carafanau gwyliau yn cael eu defnyddio at eu diben bwriedig. Gwnaeth Aelodau:

**BENDERFYNU:** *yn amodol ar y sylwadau uchod -*

- (i) cefnogi a chanmol y systemau rheoli data a monitro a sefydlwyd fel rhan o'r prosiect;*
- (ii) cytuno bod Swyddogion o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn parhau i ymchwilio i feddiannaeth breswyl heb awdurdod posibl a rheoleiddio parciau yn unol â hynny; a*
- (iii) chytuno y dylid parhau gyda'r gwaith rheoleiddio ar sail 'busnes fel arfer' heb yr angen am unrhyw gyfeiriad pellach i'r pwyllgor Archwilio.*

## **9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithrediad wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Cadarnhawyd fod y Cadeirydd, y Cynghorydd Huw Williams am fod ar Grŵp Herio'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a gwasanaethu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Buddsoddi Strategol.

**PENDERFYNWYD** - *yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r penodiadau a rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.*

## **10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>7 Medi 2017</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Arweinydd/ Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Arweinydd Tîm-Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Sir Ddinbych fel lleoliad twristiaeth a digwyddiadau</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar waith y Tîm Twristiaeth i hyrwyddo Sir Ddinbych fel lleoliad twristiaeth a digwyddiadau (Atodiad 1 Trosolwg Twristiaeth 2016-17, Atodiad 1B Ffigyrau Scarborough Tourism Economic Activity Model-STEAM 2016) gan ganolbwyntio'n benodol ar weithio mewn partneriaeth â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, datblygu a mireinio'r broses o wneud cais i gynnal digwyddiadau a'r arloesedd a'r gwaith datblygu a wnaed.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I lunio argymhellion mewn perthynas â gwella gwaith twristiaeth, marchnata a digwyddiadau'r Cyngor cyn y tymor twristiaeth 2018 ac i gefnogi uchelgais strategol y Cyngor ar gyfer twristiaeth yn y sir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Archwilio yn:

- 3.1 ystyried a gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiol; ac
- 3.2 os yn briodol, yn llunio argymhellion gyda'r bwriad o ddatblygu uchelgais strategol y Cyngor ar gyfer twristiaeth yn y sir ymhellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Gweithio mewn partneriaeth

Mae Tîm Twristiaeth Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr awdurdodau lleol eraill yn Wrecsam a Sir y Fflint o dan faner Gogledd Ddwyrain Cymru (Ardaloedd Marchnata) i ddenu ymwelwyr i'r ardal. Cynhelir cyfarfodydd misol ac mae swyddogion o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Mae'r gweithgarwch partneriaeth hwn yn ein galluogi ni i ddenu cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgarwch marchnata. Er enghraifft, eleni llwyddodd Sir Ddinbych i sicrhau cyllid o £40,000 (Atodiad 2 Cysylltiadau Cyhoeddus Gogledd Ddwyrain Cymru ac Atodiad 3 Sylw yn y Wasg 2017) i hyrwyddo'r ardal o dan y thema Blwyddyn y Môr 2018. Ar ben hynny, mae'r dull hwn yn ein galluogi ni i fod yn rhan o gynnis hyrwyddol

ehangach a ariennir drwy Croeso Cymru. Mae'r dull cydlynol hwn wedi chwarae rhan yn natblygiad enw da Gogledd Cymru fel prif leoliad twristiaeth. Roedd Gogledd Cymru yn rhan o restr Lonely Planet o ddeg o leoliadau gorau'r byd 2017. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio'r ffaith hon i hyrwyddo ein hardal yn Llundain, ar dacs sydd wedi'i addurno'n arbennig, fel rhan o ymgyrch Gogledd Cymru. (Atodiad 4 Ymgyrch Tacs)

Oni bai am y dull partneriaeth hwn, byddai cael mynediad at gyllid a chyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru yn amhosibl. Drwy arwain y ceisiadau hyn, gallwn sicrhau bod negeseuon allweddol am Sir Ddinbych yn derbyn sylw cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, rydym yn cyllido dwy Ganolfan Groeso (Y Rhyl a Llangollen) sy'n cael eu rheoli gan Dwristiaeth Gogledd Cymru. Yn ddiweddar, rydym wedi cytuno i gyllido'r rhain am y tair blynedd nesaf fel rhan o'n hymrwymiad i brofiad ymwelwyr yn Sir Ddinbych. Rydym yn sylweddoli gwerth y canolfannau hyn sy'n darparu gwybodaeth o ansawdd da ac yn annog ymwelwyr i ymweld â phob rhan o'r sir. Rydym hefyd wedi agor, mewn partneriaeth ag eraill, sawl Man Gwybodaeth i Dwristiaid (MGD) yn Sir Ddinbych (Loggerheads, Nova a Fferm Rhug (Atodiad 5 MGD Rhug) sy'n ffynonellau gwybodaeth ar draws y sir. Mae'r MGD mwyaf diweddar yn Rhug yn enghraifft dda o waith partner rhwng yr awdurdod, Grŵp Busnes Corwen ac Ystâd Rhug.

Mae'r Tîm Twristiaeth yn chwarae rhan allweddol yn null Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych. Dyma enghraifft dda o'r pwysigrwydd a roddwn ar waith â phartneriaid allanol. Mae'r dull sylfaenol hwn yn cynnwys Fforwm Twristiaeth sy'n cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn, Partneriaeth Cyrchfan dan arweiniad busnesau twristiaeth a Grŵp Cyswllt Rheoli Cyrchfan, pan fydd Cadeirydd y Bartneriaeth yn cwrdd ag uwch swyddogion CSDd (ac Aelod Arweiniol).

<http://www.discoverdenbighshire.wales/denbighshire-tourism-forum-09-05-17/?lang=cy>

Mae aelodau eraill y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan yn cynnwys Swyddogion Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae AHNE yn chwarae rhan allweddol ar bob lefel o Reoli Cyrchfan gan gynnwys mynychu'r Fforwm Twristiaeth; mae swyddogion yn cynrychioli'r Gymdeithas AHNE yn y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan; mynychu cyfarfodydd Grŵp Cyswllt Rheoli Cyrchfan ac mae'r gymdeithas hefyd wedi'i chynnwys yn y gwaith sy'n cael ei gynhyrchu gan y broses (er enghraifft Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio a sefydlwyd yn ddiweddar i edrych ar broblemau yn Moel Famau a gwybodaeth i ymwelwyr).

### **Datblygu a Mireinio'r Broses Ddigwyddiadau**

Y Tîm Twristiaeth yw gweinyddwyr y broses o wneud cais i gynnal digwyddiadau'r cyngor. Mabwysiadwyd y dull hwn er mwyn gwella profiad trefnwyr digwyddiadau wrth ddelio â'r awdurdod lleol. Ar hyn o bryd, mae modd i drefnwyr digwyddiadau gysylltu â'r Tîm Twristiaeth yn uniongyrchol i dderbyn ffurflen gais i gynnal digwyddiadau. Yna bydd rhaid i'r unigolion hynny ddychwelyd y ffurflen at ein tîm ac yna byddwn yn anfon yn ffurflen ymlaen at yr adrannau perthnasol o fewn yr awdurdod. Mae ffurflenni cais i gynnal digwyddiadau a phecyn gwaith defnyddiol hefyd i'w cael ar-lein:

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/ymwelydd/pethau-iw-gwneud/be-symlaen/cynnal-digwyddiad.aspx>

Mae'r broses wedi'i hailadrodd dwywaith, ers ei chyflwyno am y tro cyntaf yn 2015. Yn gynnar yn 2017, penderfynodd y Tîm Twristiaeth symleiddio'r broses ymhellach. Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu â swyddogion CSDd a threfnwyr digwyddiadau. Llwyddodd yr adborth i ddatgelu llawer o ganfyddiadau allweddol:

- Roedd y mwyafrif a oedd yn cymryd rhan o'r farn y byddai cael pwynt cyswllt cyntaf yn gadarnhaol.
- Mae'r ffurflen gais bresennol yn rhy hir ac mae angen ei symleiddio.

Ar 20 Gorffennaf, cyflwynwyd papur i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a oedd yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

1. Symud i fwrdd oddi wrth y broses ymgeisio i broses hysbysu
2. Cynnal pwynt mynediad unigol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau ond annog gwasanaethau a threfnwyr digwyddiadau i ddelio'n uniongyrchol gyda'i gilydd unwaith y bydd hyn wedi'i sefydlu
3. Galluogi ymgysylltiad uniongyrchol rhwng trefnwyr digwyddiadau a swyddogion/ adrannau/ gwasanaethau perthnasol o fewn CSDd oddi ar restr gytunedig.

Cytunwyd ar y dull hwn gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion CSDd a threfnwyr digwyddiadau i roi'r dull hwn ar waith yn ystod y misoedd nesaf.

Nod y dull hwn fydd cynnig cefnogaeth fwy effeithiol i gymunedau er mwyn iddynt allu cynnal digwyddiadau llwyddiannus.

## **Arloesedd a Gwaith Datblygu**

Mae rôl y Tîm Twristiaeth, i ryw raddau, yn ddeublyg. Mae'r Tîm yn hyrwyddo'r ardal gan ddefnyddio cynhyrchion digidol, sydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â'r themâu "Blwyddyn y.." (Atodiad 6 Gweithgarwch Cyfryngau Cymdeithasol Gogledd Ddwyrain Cymru, Atodiad 7 Gweithgarwch Cyfryngau Cymdeithasol Darganfod Sir Ddinbych). Mae'n gweithio i sicrhau bod pob ymwelydd yn derbyn y croeso gorau ac yn derbyn gwybodaeth o ansawdd da i wella eu profiad yn Sir Ddinbych.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r tîm wedi creu llyfrynnau digidol a ffilmiau ar gyfer ymwelwyr posib sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymweld â'r ardal hon. Rydym wedi sicrhau bod ein ffilmiau'n cael eu hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ein gwefan.

<http://www.northeastwales.wales/listings/blwyddyn-chedlau/?lang=cy>

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ein tîm wedi gweithredu Cynllun Llysgennad Twristiaeth llwyddiannus. Rydym wedi cynnal teithiau dysgu, gweithdai a gweithgareddau ymgysylltu eraill i gynyddu gwybodaeth leol a chreu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a rhannu'r arfer orau. Derbyniwyd cyllid ar gyfer y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o weithio mewn partneriaeth Gogledd Ddwyrain Cymru. Y fwy diweddar, roedd ein cais am

gyllid (£22,400) gan y Rhaglen Datblygu Gwledig hefyd yn llwyddiannus a byddwn yn defnyddio'r arian hwn i greu cynllun modiwl ar y we. Bydd y gwaith hwn yn dechrau ar ddiwedd 2017 ac fe fydd yn para tan fis Mawrth 2019. Gan ei fod yn gynllun ar y we fe fydd hyn yn galluogi i fwy o bobl gymryd rhan ac mae hefyd yn fodel mwy cynaliadwy. Bydd Teithiau Dysgu a gweithdai hefyd yn rhan o'r cynllun newydd hwn a bydd cyfle hefyd i fusnesau fentora ei gilydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- Amgylchedd deniadol a warchodir sy'n cefnogi lles cymunedau a ffyniant economaidd.
- Codi proffil y sir fel lle i gynnal digwyddiadau awyr agored sy'n manteisio ar ein hamgylchedd unigryw (chwaraeon, diwylliant, y celfyddydau, bwyd ac ati), a CS Ddinbych fel partner cefnogol i drefnwyr digwyddiadau proffesiynol a chymunedol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Amherthnasol

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.1 (e) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall y Pwyllgor Archwilio ystyried effaith polisïau er mwyn asesu os ydynt wedi gwneud gwahaniaeth tra bod Adran 7.4.2 yn nodi y gall y Pwyllgor Archwilio adolygu ac archwilio gwaith gwasanaethau'r Cyngor a gwneud argymhellion, yn dilyn y broses adolygu, i wella canlyniadau.

**Swyddog Cyswllt:**

Arweinydd Tîm - Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau  
Rhif ffôn: 01824 706152

# Tîm Twristiaeth CSDd: annog ymwelwyr i Ddarganfod Sir Ddinbych

## Dosbarthiad taflen Sir Ddinbych



Taflenni Teithiau Cerdded Trwy'r Dref wedi eu harchebu gan fusnesau twristiaeth: **95,791**

Be Sy'Mlaen yn Sir Ddinbych yn cael ei ddsbarthu bob chwarter ar draws Gogledd Cymru: **24,000 copiau y flwyddyn**

## Taith Prydain 2016




Wedi trafod a chytuno dechrau cymal 4 yn Ninbych

Addurnwyd Dinbych ar gyfer dechrau'r ras: **1.24 milltir o bynting a 1,000 o faneri**

Wedi lansio Gwyl Feicio i hybu beicio yn y sir

## Diwrnod Lluoedd Arfog Gogledd Cymru 2016



Wedi dosbarthu taflenni ar draws Gogledd Cymru i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad: **180,000**

Ymwelwyr wedi eu denu i'r digwyddiad, gan gryfhau enw da'r cyngor: **10,000**

**"Digwyddiad gwych. Ar ran y Lluoedd Arfog yng Nghymru hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi am y cyfan yr ydych wedi'i wneud i'r gymuned filwrol ledled Gogledd Cymru"**  
Cynul L Patterson, 160ed Brigâd y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru

## Hybu Sir Ddinbych ym mhob man



Blwyddyn Antur 2016 – llyfryn digidol a ffilmiau hyrwyddol

Blwyddyn Chwedlau 2017 – llyfryn digidol, llyfryn 12 siwrnai chwedlonol, ffilmiau hyrwyddol ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol

Ffilm yn arddangos Sir Ddinbych wedi'i datblygu ar gyfer y farchnad mordaith rhyngwladol sy'n tyfu

Wedi adnewyddu gwefan Darganfod Sir Ddinbych ar gyfer tymor yr haf 2017

Cyfrifon Facebook a Twitter

## STEAM (Model Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough)

Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Sir Ddinbych 2015: **£458 miliwn, i fyny 6% ers 2014**

## Rheoli Cyrchfan (beth sy'n digwydd pan mae'r ymwelydd yn cyrraedd)



Mae gan bob prif dref yn Sir Ddinbych fyrdau gwbyodaeth newydd

Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Llwyddiannus ar draws y sir: **"Gwych ar gyfer rhwydweithio gyda busnesau lleol eraill i hybu mwyr ar yr ardal."** – Jen Horan, Rivercatcher, Llandrillo


Ymrwymiad i ddarparu Canolfannau Gwybodaeth Twristiaeth yn Sir Ddinbych

Pwyntiau Gwybodaeth Twristiaeth Newydd wedi agor yn Loggerheads a Nova Prestatyn yn 2016 ac agorodd Fferm Rhug yn Ebrill 2017

Cyfarfodydd Rheoli Cyrchfan wedi eu cynnal bob chwarter gyda phrif gyfranogwyr twristiaeth ac uwch reolwyr Cyngor Sir Ddinbych

# DCC's Tourism Team: encouraging visitors to Discover Denbighshire

## Denbighshire leaflet distribution



Town Trail leaflets ordered by tourism businesses: **95,791**

What's On Denbighshire distributed every quarter across North Wales: **24,000 copies pa**

## Tour of Britain 2016



Negotiated to bring the stage 4 start to Denbigh

Decorated Denbigh for the race start: **1.24 miles of bunting and 1,000 flags**

Launched Festival of Cycling to promote cycling in the county

## North Wales Armed Forces Day 2016




Flyers distributed across North Wales to publicise the event: **180,000**

Visitors attracted to the event, strengthening the council's reputation: **10,000**

**"A fantastic event. On behalf of the Armed Forces in Wales I would like to thank you most sincerely for all you have done for the military community throughout North Wales."**  
Colonel L Patterson, 160th Infantry Brigade and Headquarters Wales

## Promoting Denbighshire far and wide



Year of Adventure 2016 – digital brochure and promotional films

Year of Legends 2017 – digital brochure, 12 legendary journeys brochure, promotional films and social media campaign

Film showcasing Denbighshire developed for the growing international cruise market

Refreshed Discover Denbighshire website ready for summer 2017 season

Active Facebook and Twitter accounts

## STEAM (Scarborough Tourism Economic Activity Model)

Total economic impact of tourism in Denbighshire 2015: **£458m, up 6% on 2014**

## Destination Management (what happens when the visitor arrives)



All main Denbighshire towns have new information boards

Successful Tourism Ambassadors Scheme operating across the county: **"Great for networking with other local businesses to promote the area more."** – Jen Horan, Rivercatcher, Llandrillo

Commitment to provide Tourist Information Centres in Denbighshire

New Tourist Information Points opened at Loggerheads and Nova Prestatyn in 2016 and Rhug Farm opened in April 2017

Destination Management meetings held every quarter with key tourism players and senior management of DCC



## STEAM SUMMARY 2016 DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL

Total economic impact of tourism £M	479.34
% change on 2015 (£'s 2016)	3.2%

Total visitor days (Millions)	11.38
% change on 2015	2.3%
Staying visitor days (Millions)	6.93
% change on 2015	3.0%

Total visitor numbers (Millions)	5.95
% change on 2015	1.7%
Number of staying visitors (Millions)	1.50
% change on 2015	3.1%
Number of day visitors (Millions)	4.46
% change on 2015	1.2%

Number of FTE jobs supported by tourism spend	6,250
% change on 2015	2.2%

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

### North East Wales Secures Grant for Tourism Activity

A grant of £40,000 from Welsh Government has been secured to highlight North East Wales' tourism offer.

Lead partner Denbighshire County Council together with Wrexham County Borough Council and Flintshire County Council have joined forces to run a 'Routes to the Sea' project during Visit Wales' themed Year of the Sea in 2018 and have been successful in the funding from Welsh Governments' Regional Tourism Engagement Fund 2017-2019.

The project, supported by the three county Destination Management Partnerships, aims to showcase and tell engaging stories about the region's coastline, cycle routes, walking trails, mountain biking, outdoor activities, landscape, historic sites, canals and rivers as well as celebrate the food offer.

Ian Lebbon, Chair of Denbighshire Destination Management Partnership said: "I'm really pleased to hear that the North East Wales partnership has secured this funding to continue the great work in promoting the region to both residents and visitors. We know tourism plays a vital part in the regions' economy, with a total economic impact in 2015 of £808m and over 11 million visits made and this funding will help to ensure we continue to build a thriving, sustainable tourism economy."

Economy Secretary, Ken Skates, said: "Innovative projects are key to the future success of tourism and attracting visitors to Wales. The North East Wales funding is part of £2 million which has been approved for a total of 38 projects across Wales under the Tourism Product Innovation Fund and Regional Tourism Engagement Fund. I'm delighted that this funding enables the private and public sectors to develop innovative projects that will stimulate demand and improve the visitor offer through supporting our themed years."

A variety of high quality images and short films featuring many of our key locations and landmarks such as the Pontcysyllte Aqueduct & Canal World Heritage Site, Wales Coast Path and Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty will be produced.

Building on the success of the 2017 North East Wales Food Challenge; a 'Year of the Sea' Food Challenge will also be launched in 2018 which will showcase our food offer and restaurants associated with our coast and waterways.

The three Destination Management Partnerships will be launching their Destination Management Plans for 2017-20 this year to build on the work already done and ensure long-term sustainability for the development of tourism. The North East Wales brand will continue to be a key feature of all three plans to promote the region for visitors and residents to enjoy.

For more information on North East Wales please visit [www.northeastwales.wales](http://www.northeastwales.wales)

## **Editors Notes**

North East Wales is a partnership between Denbighshire, Wrexham and Flintshire Destination Management Partnerships and the three unitary authorities. For more information please contact Denbighshire Tourism Team 01824 706915.

<b>Date</b>	<b>Media</b>	<b>Headline</b>
22 April	Daily Post online – film	Could this video draw more tourists to North East Wales?
